CYPE(5)-06-21 - Papur i'w nodi 7

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Ty Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

16 Chwefror 2021

Annwyl Lynne,

Yn dilyn cyfarfod Cyfnod 2 y Pwyllgor ar 29 Ionawr, tybiais y byddai'n ddefnyddiol nodi rhai o'r meysydd yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion i symud ymlaen, gan gynnwys y meysydd yr ymrwymais i weithio gydag aelodau'r Pwyllgor arnynt.

**Gwelliannau 41 a 42**

**Nodi dealltwriaeth o Hanes Cymru yn ei holl amrywiaeth, gan gynnwys Hanes Pobl Dduon a Phobl o Liw, ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau; ac fel elfen orfodol ychwanegol o'r cwricwlwm.**

Fel y gwyddoch, penodais yr Athro Charlotte Williams OBE i gadeirio'r Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd yn haf 2020.

Mae gwaith y Grŵp yn cynnwys, ond yn mynd y tu hwnt i hanes fel pwnc. Mae hyn yn adeiladu ar y dull sefydledig, a nodwyd gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru (ac eraill), er mwyn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o Gymru mae'n rhaid i ni ei edafu trwy iaith, llenyddiaeth, daearyddiaeth a gwyddorau ac ar draws y cwricwlwm, yn ogystal â hanes.

Derbyniais yr adroddiad interim gan y grŵp ym mis Tachwedd 2020 a chadarnheais y byddwn yn gweithredu'r holl argymhellion yn yr adroddiad. Byddaf yn ymateb yn ffurfiol pan fydd yr adroddiad terfynol wedi'i gyflwyno yn y gwanwyn a fydd yn cwmpasu meysydd yn ymwneud â dysgu proffesiynol.

Rwyf yn diweddaru'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig i gynnwys cyfeiriadau penodol at hanes pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ym maes dysgu a phrofiad y dyniaethau ac yn y canllawiau statudol er mwyn sicrhau ei fod wedi'i ymgorffori ar draws y cwricwlwm. Rydym hefyd yn adolygu'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig o ran hanes Cymru er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu a'i ddeall yn llawn yn y Cod. Bydd y datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn cael ei gynnwys yn y Cod yr Hyn sy'n Bwysig statudol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ganlyniad i hyn, bydd y meysydd hyn yn orfodol yng Nghwricwlwm Cymru Rydym wedi trafod y newidiadau gyda'r Athro Williams sydd wedi cadarnhau ei bod yn fodlon.

**Gwelliant 54**

**Yn ei gwneud yn ofynnol yn statudol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb cychwynnol erbyn 31/03/22.**

Bydd y gwaith o ddrafftio'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn dod i ben erbyn 31/03/2021 a chaiff ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori cyhoeddus cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad hwnnw. Y bwriad yw cyhoeddi fersiynau terfynol y canllawiau statudol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i helpu ysgolion a lleoliadau erbyn diwedd 2021. Felly, mae pennu amserlen ar wyneb y Bil yn ddiangen.

**Gwelliannau 71 a 72**

**Mewnosod dyletswyddau ar bersonau rhestredig i roi sylw i CCUHP a CCUHPA wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Bil a bod yn rhaid i unrhyw ganllawiau a roddir o dan adran 66 nodi'r hyn sy'n ofynnol gan y personau hynny er mwyn iddynt gyflawni'r dyletswyddau hynny.**

Datblygwyd y Bil hwn gyda hawliau plant yn sail iddo ac mae'r hawliau hyn wedi'u hymgorffori drwyddi draw. Byddai'r gwelliannau hyn yn creu baich biwrocrataidd sylweddol ar ysgolion, ac mae pryder y gallai hyn eu gwneud yn amharod i fentro yn eu penderfyniadau (gan y gallent fod yn destun her gyfreithiol), a allai danseilio egwyddorion y Bil. Rwy'n awyddus iawn i osgoi gwneud unrhyw beth a fydd yn cynyddu'r baich ar ysgolion a lleoliadau yn sylweddol o ran adrodd.


Fy mwriad yw cyflwyno diwygiad i'r Bil ar yr CCUHP ac CCUHPA mewn ffordd sy'n gwella ansawdd yr addysgu mewn ffordd gynhwysfawr. Mae hyn yn cysylltu ag adroddiad Hawliau Plant Pwyllgor PPIA, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2020, yn benodol argymhellion ar godi ymwybyddiaeth o'r CCUHP. Y bwriad yw i'r gwelliant arfaethedig gael ei ddylunio i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o hawliau plant mewn ffordd sy'n gefnogol i ymarferwyr ac y gellir ei ymgorffori mewn addysgu a dysgu. Mae'r gwaith ar hyn yn parhau a byddaf yn eich diweddaru ar y cynnydd yn ddiweddarach y mis hwn.

Fel yr wyf wedi'r ddweud o'r blaen, mae'r Confensiynau wedi'u hanelu at wladwriaethau ac, yn unol â hynny, mater i lywodraethau yw sicrhau cydymffurfiaeth drwy eu cyfreithiau, eu gweithredoedd gweinyddol a mesurau priodol eraill. Mae hon yn egwyddor bwysig ac, oni bai bod y wladwriaeth yn darparu'r gwasanaeth yn uniongyrchol, nid yw'r Confensiwn hwn wedi'i dargedu at ddarparwyr gwasanaethau rheng flaen fel cyrff llywodraethu a phenaethiaid.

Nid yw darparwyr gwasanaethau rheng flaen yn arbenigwyr ar gyfraith ryngwladol ac ni ddylid disgwyl iddynt ddehongli manylion y cytuniad rhyngwladol a'i erthyglau a'u cymhwyso i nifer o benderfyniadau a wneir o dan y Bil. Mater i'r llywodraeth yw penderfynu a oes digon wedi'i wneud mewn cyfraith a gweinyddiaeth i sicrhau bod y llywodraeth yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan CCUHP. Bydd y Bil, ar ôl ei ddeddfu, yn ychwanegu at fframwaith statudol sy'n cyflawni'r rhwymedigaethau hynny yn ein barn ni. Yn y pen draw, y llywodraeth sy'n gyfrifol yn hyn o beth.

Amgaeaf hefyd, yn Atodiad A, y rhesymau dros y pynciau gorfodol, sy'n ymateb i argymhelliad 6 yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

**Atodiad A**

Mae'r papur briffio technegol hwn yn ymateb i Argymhelliad 6 o Adroddiad Cam 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:

> Argymhelliad 6: Bod Llywodraeth Cymru yn nodi, fel mater o flaenoriaeth, yr egwyddorion a'r rhesymu sydd wedi llywio - ac a fydd yn parhau i lywio - penderfyniadau ynghylch pa agweddau ar addysgu a dysgu sy'n haeddu cael eu cynnwys ar wyneb y Bil fel elfennau gorfodol.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru'n nodi fframwaith ar gyfer dysgu sy'n rhoi mwy o gyfle i ymarferwyr ddefnyddio eu galluogedd a'u creadigrwydd i ddatblygu cwricwlwm sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr. Cyflawnir y galluogedd hwn drwy ddatganiad clir o'r hyn sy'n bwysig wrth ddarparu addysg eang a chytbwys.

Mae'r Cod yr Hyn sy'n Bwysig wedi'i gynllunio i sicrhau bod dysgu penodol yn rhan o gwricwlwm ysgol, heb ychwanegu'r rhain at wyneb y Bil. Mae hyn yn cydnabod eu bod wedi'u datblygu ar y cyd gan weithwyr addysg proffesiynol ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'w hesblygu a'u haddasu dros amser na phe baent ar wyneb y Bil.

**Mae'r cysyniadau a'r meysydd dysgu sydd yn y Cod yr Hyn sy'n Bwysig eisoes yn orfodol ac yn ofynnol ar gyfer pob ysgol.**

Mae'r rhain yn cynnwys hanes Cymru a hanes pobl groenliw, amrywiaeth, sgiliau achub bywyd a lles mislifol.

Wrth ddatblygu Fframwaith Cwricwlwm i Gymru, rydym wedi derbyn nifer fawr iawn o geisiadau i gynnwys agweddau eraill ar ddysgu ar wyneb y Bil er mwyn gwarantu eu bod yn cael eu haddysgu.

Dadleuir bod yr agweddau hyn mewn perygl ar hyn o bryd mewn rhyw ffordd ac yn hanfodol i ddatblygiad, lles neu brofiadau ehangach dysgwyr. Fodd bynnag, ceir cysyniadau allweddol yn y Cod yr Hyn sy'n Bwysig sy'n ymdrin â hwy ac felly ni fyddai eu rhoi ar wyneb y Bil yn ychwanegu unrhyw fudd sylweddol.

Gosodir pedair elfen ar wyneb y Bil am eu bod yn unigryw gan fod angen i'r Bil eu crybwyll er mwyn ymdrin â mater penodol neu set benodol o amgylchiadau, fel y nodir isod.

Maent hefyd yn cynrychioli pynciau clir ac adnabyddadwy yn hytrach na dim ond agwedd ar ddysgu mewn maes, ac mae eu cyfraniad i'r pedwar diben yn unigryw ac yn mynd y tu hwnt i gwmpas y chwe maes dysgu a phrofiad.

Yn ogystal â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, mae nifer fach iawn o elfennau mandadol ar wyneb y Bil:

- Saesneg
- Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
- Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- Cymraeg

Eglurir isod y rhesymau pam fod y pynciau a restrir ar hyn o bryd yn unigryw a bod angen ymdrin â hwy ar wyneb y bil.

*Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb*

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn hanfodol i ddatblygiad plentyn ac felly mae wedi'i gynnwys fel elfen mandadol i sicrhau y caiff ei haddysgu i bob dysgwr ym mhob ysgol a lleoliad. Mae hyn yn dilyn argymhelliad panel arbenigol annibynnol y dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn statudol.

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cwmpasu amrywiaeth o ddisgyblaethau sy'n mynd y tu hwnt i gwmpas Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles ac felly mae angen darpariaeth penodol i sicrhau ei fod yn cael ei ddysgu yn ei gyfanrwydd. Hefyd mae'r materion a godir yn y maes hwn yn gymhleth ac mae darparu dysgu sy'n briodol i ddatblygiad dysgwyr yn hanfodol i'w diogelwch a'u lles. Mae rhoi hyn ar wyneb y Bil hefyd yn sicrhau mesurau diogelu deddfwriaethol yn ymwneud â phriodoldeb yr addysgu yn y pwnc hwn i oedran a datblygiad y dysgwyr.

Yn ogystal â bod yn elfen fandadol, mae'r Bil hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n nodi'r 'themâu a materion' sydd i'w cynnwys wrth addysgu'r elfen hon. Mae'r ddyletswydd i gyhoeddi Cod yn diogelu ymhellach yr hyn a ystyrir yn briodol yn ddatblygiadol. Mae hyn nid yn unig yn cefnogi ysgolion i wneud penderfyniadau mewn elfen ddadleuol a sensitif o'r cwricwlwm ond hefyd yn rhoi sicrwydd i rieni ynghylch sut y bydd y maes yn cael ei addysgu yn hytrach na gadael i'r ysgol benderfynu, fel sy'n digwydd gyda'r rhan fwyaf o'r cwricwlwm. Bydd y Cod, i bob pwrpas, yn gwricwlwm ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb y mae'n rhaid i ysgolion ei weithredu. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried nad oes gan rieni hawl mwyach i dynnu plant yn ôl o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

*Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg*

Pwysleisiodd Argymhelliad 9 Dyfodol Llwyddiannus rôl annatod ac unigryw addysg grefyddol o ran galluogi dysgwyr i ddatblygu parch at ddiwylliannau eraill a'u dealltwriaeth ohonynt.

O ganlyniad, argymhellwyd a chytunwyd y byddai hyn yn parhau i fod yn ofyniad "statudol" yn y cwricwlwm. Er bod llawer o'r dysgu hwn yn perthyn i'r maes Dyniaethau, mae'n gofyn am amrywiaeth o ddulliau gweithredu disgyblaethol ac mae'n ehangach na Maes Dysgu a Phrofiad yn unig. Mae'n wahanol ac yn unigryw fel pwnc oherwydd bod iddo oblygiadau penodol iawn o ran y ffordd y caiff ei gyflwyno mewn ysgolion â chymeriad crefyddol.

Ni fydd hawl i dynnu'n ôl ac felly mae hefyd yn codi'r un materion ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o ran ei gynnwys. Fodd bynnag, ni eir i'r afael â hyn drwy roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud cod. Hynny am fod fframwaith deddfwriaethol o Bwyllgorau Maes Llafur Cytûn yn bodoli ar gyfer y cwricwlwm presennol o gyfarwyddyd crefyddol. Defnyddir y fframwaith hwn i gynhyrchu maes

llafur cytûn sy'n blwraliaethol ac nad yw felly'n effeithio ar argyhoeddiadau crefyddol ac athronyddol y rhieni.

*Cymraeg a Saesneg*

Mae'r ddwy iaith yn amlwg yn rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu ond maent hefyd yn hanfodol ar gyfer datblygu'r sgìl trawsgwricwlaidd gorfodol o lythrennedd. I ddatblygu llythrennedd mae'n bwysig bod y Bil yn nodi'n glir ym mha ieithoedd y dylai hyn ddigwydd.

Mae iaith yn allweddol er mwyn cael mynediad i'r cwricwlwm cyfan a gwireddu'r Pedwar Diben. Rhestrir Cymraeg a Saesneg fel elfennau gorfodol ar wyneb y Bil i sicrhau bod dysgwyr yn gallu ymgymryd â'r cwricwlwm ac yn datblygu'n ddysgwyr sy'n ymgorffori'r pedwar diben.

Felly, nid yw'r ieithoedd hyn yn cynrychioli pynciau mewn Maes yn unig ond maent hefyd, drwy lenyddiaeth, datgloi ieithoedd/diwylliannau eraill ac entymoleg, yn ieithoedd addysgu a dysgu. Golyga hyn eu bod yn wahanol ac yn unigryw.

Nodwyd yn Dyfodol Llwyddiannus bod dysgu Cymraeg yn cynnig manteision diwylliannol, gwybyddol ac ymarferol unigryw. Y bwriad yw galluogi pob dysgwr yng Nghymru i allu defnyddio'r Gymraeg erbyn cyrraedd 16 oed. I gyflawni hynny, mae angen i addysgu a dysgu'r Gymraeg gael ei gydnabod a'i werthfawrogi fel rhan annatod o'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r Gymraeg fel elfen orfodol yn dechrau o dair oed tra bod Saesneg yn dod yn orfodol yn saith oed. Hynny er mwyn gallu parhau ag addysg drochi yn y Gymraeg ond hefyd i sicrhau sylfaen yn y Gymraeg yn yr ysgolion a'r lleoliadau hynny nad ydynt yn cynnig darpariaeth drochi. Mae hyn yn adlewyrchu'n glir bwysigrwydd dysgu Cymraeg a'r flaenoriaeth y mae'r llywodraeth bresennol yn ei rhoi i hyn.

I grynhoi, mae'r pedair elfen mandadol yn bynciau clir, adnabyddadwy sy'n gwneud cyfraniad unigryw i'r pedwar diben sy'n mynd y tu hwnt i gwmpas y chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Nid yw hyn yn ymwneud â gwarantu addysgu na rhoi statws ychwanegol iddynt, ond bod angen i'r bil ymdrin â hwy er mwyn mynd i'r afael â materion penodol iawn ac unigryw.